

# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 34
MAI 2010

Eleni cynhelir Wythnos Cymorth Cristnogol o'r 9fed i'r 15fed o fis Mai ac ymhlith y deunydd a dderbyniwyd i'n cynorthwyo i baratoi fe nododd Cymorth Cristnogol saith rhesmwn da dros gynnal yr wythnos bwysig hon. Dyma nhw:

1. Cawn ymuno â dros **20,000 o eglwysi** mewn gweithred Gristnogol unigryw sy'n dystiolaeth i'n cymunedau – yn dangos iddynt ein gofal dros gyfiawnder a phobl dlawd.
2. Mae gan Cymorth Cristnogol weledigaeth – **dileu tlodi**. Trwy fod yn rhan o'r wythnos hon rydym, nid yn unig yn ariannu prosiectau sy'n newid bywydau, rydym yn mynd i'r afael ag achosion tlodi – gan helpu newid y byd am byth.
3. Mae gan yr eglwys **hanes rhyfeddol** o weithio dros gyfiawnder . Cynhaliwyd Wythnos Cymorth Cristnogol yn flynyddol, bron ers diwedd yr Ail Ryfel Byd – gan ddangos ffyddlondeb yr eglwys yn helpu'r tlodion.
4. Ar yr **adeg ariannol anodd yma**, mae pobl dlawd y byd angen ein hamser, ein gweddïau a'n cefnogaeth ariannol yn fwy nag erioed. Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn ein helpu ni i roi cyfle i bobl fod yn hael.
5. Mae tua **300,000 o wirfoddolwyr** yn rhoi o'u hamser i fynd ag amlenni o ddrws i ddrws a chynnal digwyddiadau. Rydym yn rhan o fudiad dros newid.
6. Cawn **arian am ddim!** Mae pob trethdalwr sy'n llofnodi datganiad Rhodd Cymorth ar amlen yn rhoi 28% ychwanegol i Cymorth Cristnogol – gan roi'r cyfle i ni wneud mwy o waith datblygu yng nglwedydd tlotaf y byd.
7. Mae Cymorth Cristnogol wedi ymgyrchu'n llwyddiannus ar "dileu'r ddyled", diwygio'r datganiad-carbon a masnach gyfiawn. Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn helpu **newid strwythurau** ledled y byd."

Diolch i bawb ym **Methel a Horeb** a fydd yn barod i gynorthwyo eleni eto gyda'r gwaith pwysig yma!

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

## CALENDR MIS MAI 2010

| **Cyhoeddwr y Mis<br>Mervyn Hughes** | **Organydd y mis<br>Ceris Gruffudd** | |
|---|---|---|
| 2 Mai<br>2.30 | Oedfa Gymun : Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Gwenan a Richard Davies |
| 9 Mai<br>10.00 a 5.30 | Cymanfa Ganu Eglwysi Gogledd Ceredigion : Capel y Garn<br>Oedfa Deuluol yn y bore o dan arweiniad Dr Owain Edwards, Coleg y Bala<br>Arweinydd yr Hwyr: Mrs Carol Davies | |
| 16 Mai<br>2.30 | Oedfa Bregethu: Steffan Jones,Penrhyn-coch | Gofal y Te :<br>I'w drefnu |
| 23 Mai<br>10.30 | Clwb Sul bach ac Oedfa Bregethu: Gweinidog | |
| 30 Mai<br>10.00 | Gwasanaeth yn y Pafiliwn,Llanerchaeron,<br>Maes Eisteddfod yr Urdd Thema: Dwylo | |
| 6 Mehefin 2.30 | Oedfa Gymun Gweinidog | Bwrdd y Cymun:<br>I'w drefnu |

**I'CH DYDDIADUR**

5 Mai : Cyfarfod Blynyddol y Senana ym Mhontypridd. Cyfarfodydd am 2.00yp a 5.30yp.
5 Mai : Rihyrsal y Gymanfa Ganu : Capel y Garn am 7yh
6 Mai : Darlith Gyhoeddus: Yr Hen Goleg am 7yh: Can we Believe in Miracles Today? Yr Athro Colin Humphreys, Prifysgol Caergrawnt.
9-15 Mai : Wythnos Cymorth Cristnogol
10 Mai : Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol ym Methel. 12.00-1.30yp.
12 Mai : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
15 Mai: Cymdeithas Emynau Cymru: Ysgol Undydd ym Methel.
17-22 Mai: Siop Cymorth Cristnogol, Festri Seion, Stryd y Popty
18-19 Mai: Cyfarfodydd Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion ym Mhisga Bancffosfelen.
25 Mai: Cwrdd Gweddi Misol yn festri Horeb 7.30
26 Mai : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch, Neuadd yr Eglwys.
19 Mehefin: Taith Cymdeithas y Penrhyn i Fro Morgannwg – enwau i Ceris Gruffudd
11 Gorffennaf : Gwibdaith i Silian. Croeso cynnes i bawb.

## LLOFFION

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â Sian, Llunos,Andrew, Cadi ac Osian ar golli tad a thad-cu annwyl iawn yn ddiweddar.

**Dymuniadau gorau i:**

- Elin Haf a fydd yn abseilio o ben "Tŵr Marcwis"
- Rhys Hedd sy'n teithio i Frwsel fel aelod o fforwm yr Urdd i gyflwyno y Neges Ewyllys Da i Senedd Ewrop.
- Mared a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron.

**Dalier Sylw**: Byddwn yn ystyried cael bws i fynd i'r gwasanaeth yn Llanerchaeron fore Sul Mai 30. Cysylltwch â Ceris os oes gennych diddordeb